**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD**
**9 MEHEFIN 2022**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell ddydd Iau 9 Mehefin 2022.

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd Hilary McGuill (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Helen Brown, Mel Buckley, Tina Claydon, Paul Cunningham, Robert Davies, Gladys Healey, David Mackie, Allan Marshall, Michelle Perfect a Linda Thomas

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Robert Davies (ar ran y Cynghorydd Debbie Owen)

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Christine Jones (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles); Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol); Uwch-Reolwr – Diogelu a Chomisiynu; Uwch-Reolwr – Plant a'r Gweithlu a Rheolwr Gwasanaeth Lleoedd ar gyfer Pobl Hŷn.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Gofal Cymdeithasol a'r Amgylchedd; Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1. PENODI CADEIRYDD

Dywedodd yr Hwylusydd y cadarnhawyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor Sir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ddod o'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol. Cafodd y Pwyllgor wybod fod y Cynghorydd Hilary McGuill wedi'i phenodi i'r rôl ar gyfer blwyddyn y cyngor.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi penodiad y Cynghorydd Hilary McGuill fel Cadeirydd y Pwyllgor.

## 2. PENODI IS-GADEIRYDD

Enwebwyd y Cynghorydd Claydon yn Is-Gadeirydd gan y Cynghorydd Cunningham ac eiliwyd hynny gan y Cynghorydd Michelle Perfect. Ni chafwyd enwebiadau eraill.

**PENDERFYNWYD:**

Penodi Tina Claydon yn Is-gadeirydd y Pwyllgor.

## 3. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

**4. COFNODION**

Cadarnhaodd y Cynghorydd Gladys Healy ei bod yn fodlon ar yr ymateb y mae wedi'i dderbyn ynglŷn â chartrefi gwag ond roedd arni eisiau mwy o wybodaeth am yr holl eiddo gwag a beth sy'n digwydd iddyn nhw. Dywedodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu Cymunedau ac Addysg fod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Tai ac Asedau wedi cytuno'n ddiweddar y byddai Aelodau yn derbyn gwybodaeth am eiddo gwag yn rheolaidd.

Dywedodd yr Uwch-Reolwr – Plant a'r Gweithlu fod y mater a gododd y Cynghorydd Mackie ynglŷn â chofnodion digidol gofal tymor byr wedi'i drafod gan y Grŵp Strategaeth Ddigidol; fodd bynnag roedd y cais ochr yn ochr â sawl blaenoriaeth arall a oedd yn cael eu hystyried. Gofynnodd y Cadeirydd am y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn cyfarfod nesaf y Grŵp Strategaeth Ddigidol.

Dywedodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol) y byddant yn cysylltu â darparwyr meicro-ofal i ofyn am ganiatâd i gynnwys eu manylion ar restr o weithredwyr a fydd yn cael ei dosbarthu i bob cynghorydd.

Cynigiwyd cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2022 gan y Cynghorydd Mackie, gyda'r Cynghorydd Cunningham yn eilio hynny.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

**5. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD**

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 2.18 pm)

……………………………………….

**Y Cadeirydd**